# Strategaeth Rhiantu Corfforaethol Cyngor Gwynedd

Ionawr 2025

## 1. Rhagair

Annwyl Rieni Corfforaethol

Fel person ifanc sydd wedi bod trwy'r sustem gofal, hoffwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi ar gychwyn y strategaeth newydd yma am eich cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol tuag atom.

Cofiwch yn y lle cyntaf mai nid ein dewis ni ydi mynd i ofal, ond gan ein bod wedi ein gorfodi i'r sefyllfa, yna mae angen dealltwriaeth o realiti'r sefyllfa. Gobeithio drwy'r llythyr yma y byddwch yn deall ychydig yn well.

Yr un peth sydd yn llinyn arian drwy'r neges yma i chi yw i chi sylweddoli pa mor bwysig ydi hi i chi wrando arnom ni. Mae hi yn cymryd lot fawr o ddewrder i ni i ddweud a rhannu ein teimladau. Mae yn gam anferthol yn ein bywydau i rannu ein teimladau mwyaf personol, a pan da ni yn gwneud hynny mae angen sylweddoli pa mor anodd ydi hyn a pha mor bwysig ydi hi i chi goelio yr hyn da ni yn ei ddweud. Mae ein bywydau yn medru newid o ganlyniad i rannu ein profiadau ac mae gwybod fod rhywun yn ein coelio yn gwneud gwahaniaeth.

Plant ydan ni, fel pob plentyn arall, a phan ydan ni yn cael ei rhoi mewn cartref maeth, rydym eisiau cael ein trin fel plant eraill yn y cartref. Rydym eisiau cyfle i fynd ar wyliau gyda'n gofalwyr – dydan ni ddim eisiau cael ein rhoi mewn lleoliad ysbaid pan mae pawb arall yn mynd i ffwrdd. Rydym eisiau cael dillad o ansawdd da – yn union fel mae plant y cartref maeth yn ei gael ac eisiau cael yr offer angenrheidiol ar gyfer gwneud ein gwaith ysgol. Mae hyn yn swnio yn amlwg iawn i chi mae'n debyg, ond mae'n bwysig ein bod yn medru ei ddweud.

Mae ein teuluoedd yn parhau i fod yn bwysig i ni er ein bod mewn gofal, ond mae angen peidio a pheintio pawb gyda'r un brwsh. Edrychwch arnom pob un fel person unigol. Weithiau, nid ydym am weld ein teulu gwaed, ac mae nifer o resymau am hyn, ond nid dyma'r sefyllfa am byth. Mae sefyllfaoedd yn newid a theimladau a dymuniadau yn newid ac mae angen bod yn hyblyg a pharod i ymateb i'n dymuniadau. Cofiwch hefyd pan nad ydym wedi cael ein lleoli gyda'n brodyr a'n chwiorydd eu bod nhw dal mor bwysig i ni ac rydym eisiau eu gweld yn rheolaidd mewn sefyllfa gartrefol ac nid mewn mannau cyhoeddus. Gwnewch yn saff fod gennym luniau o'n plentyndod – maent yn helpu mewn blynyddoedd i ni gofio ein stori ein hunain.

Mae tyfu fyny yn anodd, ond mae tyfu fyny mewn gofal yn anoddach. Byddwn yn dymuno i chi sylweddoli fod 16 oed yn llawer rhy fuan i feddwl am fyw yn annibynnol i nifer fawr ohonom ni. Mae angen gweithio gyda gofalwyr i sicrhau eu bod yn medru ein cefnogi a chynnig cartref i ni hyd nes da ni yn barod i adael. Dydi bod yn 16 neu yn 18 oedd ddim yn golygu nad ydym angen cefnogaeth. Gwenwch yn siŵr fod gennym gartref i fynd iddo pan da ni ar wyliau o'r coleg. Mae cael sicrwydd a sefydlogrwydd yn helpu ni i lwyddo.

Efallai ar brydiau y byddwn angen help i ganolbwyntio yn yr ysgol a weithiau bydd hyn yn golygu na fyddwn eisiau mynd, ond oherwydd bod gennym gymaint yn mynd ymlaen yn ein bywydau na phlant eraill yw hyn. Felly rydym angen i chi ddeall hyn a helpu ni ddelio efo fo. Rydym angen I chi edrych ar bethau drwy ein llygaid ni a rhoi eich hunain yn ein esgidiau ni. Drwy wneud hyn efallai y gwnewch ddeall pam 'da ni yn ymddwyn fel yr ydym ni.

Felly i grynhoi, mae ..... prif neges y byddwn yn dymuno i chi eu clywed fel rhieni corfforaethol a rheiny yw:

- Gwrando
- Parchu
- Ein trin fel y byddech yn trin eich plant eich hun
- Bod yno drwy bopeth
- Cofio fod gennym stori sydd yn bwysig i ni a'n helpu i'w chofio.

Yn gywir,
Person ifanc oedd mewn gofal.

## 2. Neges gan Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r strategaeth bwysig yma sydd yn gosod allan ein cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol i sicrhau fod y blaenoriaethau a'r dyheadau a nodir ar eich cyfer fel plant a phobl ifanc sydd yn ein gofal yn cael eu gwireddu.

Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn ei gyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol o ddifri, ac yn ymrwymedig i sicrhau eich bod fel plant a phobl ifanc sydd yn ein gofal ac wedi gadael ein gofal yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. Mae'r strategaeth yma'n cynnwys yr egwyddorion a'r addewidion sy'n cydfynd gyda Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn Hydref 2023

Yr ydym yn cydnabod eich bod yn wynebu nifer o sialensiau yn eich bywydau. Mae'r Cyngor yn cydweithio yn agos ar draws adrannau'r Cyngor a gyda'n partneriaid allanol i sicrhau fod drysau yn agor i chi er mwyn cynnig cyfleoedd fydd yn uchafu eich gallu i gyrraedd eich potensial yn y dyfodol - yn union fel y byddem yn ei wneud gyda'n plant ein hunain.

Yr ydym am sicrhau y byddwch yn cael mynediad at gyfleoedd addysg da ac yn eich annog i wneud eich gorau drwy roi cefnogaeth i chi i fynd i'r ysgol, gan dderbyn y bydd rhai adegau yn eich bywydau pan fydd hyn yn teimlo yn anodd. Ond, ein nod yw eich cefnogi drwy'r amseroedd anodd drwy wrando a thrafod hefo chi a cheisio dod i sefyllfa lle byddwch yn teimlo'n fwy hyderus.

Yr ydym yn gweithio yn galed iawn i sicrhau y byddwch yn cael eich lleoli mewn cartrefi maeth addas a chartrefol fel eich bod yn medru teimlo yn ddiogel a saff. Byddwn hefyd yn sicrhau eich bod yn medru cadw mewn cysylltiad gyda'ch teulu yn rheolaidd, mewn amgylchedd diogel. Yr ydym yn gwybod fod hyn yn bwysig i chi.

Yr ydym yn awyddus i sicrhau y bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn treulio amser i ddod i'ch adnabod ac na fyddwn yn newid eich gweithiwr cymdeithasol oni bai fod rheswm da i wneud hynny. Os bydd gennych unrhyw bryder neu gŵyn am y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn, yna rydym yn rhoi sicrwydd y byddwn yn gwrando arnoch ac yn ceisio datrys unrhyw broblem yn syth.

Yr ydym yn awyddus i sicrhau eich bod yn glir ynglŷn â'r hyn y dylech ddisgwyl gennym fel rhieni corfforaethol, ac felly cyflwynaf y strategaeth hon i chi fel y ddogfen weithredol sydd yn gosod sylfaen ar gyfer gweithredu ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau ar eich cyfer.

Cynghorydd Menna Trenholme
Aelod Arweiniol Plant a Chefnogi Teuluoedd

## 3. **Negeseuon gan ein Plant Mewn Gofal**

‘Mae fy rhieni maeth i yn grêt – gallaf fynd atynt i drafod unrhywbeth’

‘Mi wnes i ddewis aros efo fy rhieni maeth o dan y cynllun ‘Pan fyddai’n Barod’, ac mae hyn wedi golygu fy mod wedi medru manteisio ar gwrs coleg. Heb y cynllun, dwi’n meddwl byddai pethau yn wahanol iawn i mi’

‘Mae’n bwysig nad yw gweithiwr cymdeithasol yn cael ei newid – da ni yn creu perthynas ac yn ymddiried ynddyn nhw ac mae newid yn anodd gan fod angen cychwyn o’r cychwyn eto’

‘Dwi isio gweld mwy ar fy nheulu – ddim yn unig mam a dad, ond fy mrodyr a chwaer a fy nghyfnitherod’

‘Dwi ddim yn mynd i fy adolygiad statudol oherwydd eu bod yn rhy ffurfiol ac mae gormod o bobl yno yn trafod fy sefyllfa’

‘Rwyf yn cael cyfle i ddilyn fy niddordebau tu allan i’r ysgol – dwi’n brysur iawn!’

‘Dwi’n mwynhau’r ysgol, ond dwi wedi gorfod symud ysgol nifer o weithiau oherwydd fy sefyllfa i, ac mae hynny yn anodd iawn. Erbyn hyn dwi’n gwybod mod i yn aros yn ****, a dwi’n hapus yn yr ysgol ac wedi gwneud ffrindiau.’

‘Dydan ni ddim isio cael ein cosbi gyda marc absenoldeb os da ni yn mynd o’r ysgol i’n adolygiadau ni.’

## 4. Ymrwymiadau a Chyfrifoldebau

Mae’r strategaeth hon yn gosod allan gweledigaeth ac ymrwymiad Cyngor Gwynedd hon ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ac yn egluro, sut y byddwn ni fel Cyngor, yn llwyddo fel rhieni corfforaethol effeithiol, pe bynnag bo eu hoedran, iaith, rhyw, rhywioldeb, ethnigrwydd, cred neu anabledd.

Fel mae pob rhiant da yn gwybod, mae plant angen amgylchedd diogel i dyfu ac i ffynnu. Mae rhieni yn amddiffyn a chefnogi eu plant yn erbyn peryglon a risgiau bywyd. Mae rhieni yn uchelgeisiol dros eu plant ac eisiau iddynt gyrraedd eu potensial. Mae rhieni yn dathlu cyflawniadau eu plant. Mae plentyn sydd yn cael ei ofalu amdano gan y Cyngor gyda’r hawl i ddisgwyl yr un peth gan ei riant corfforaethol a fyddai’n ei ddisgwyl gan riant da. Mae pob plentyn a pherson ifanc angen byw mewn amgylchedd ddiogel a chadarn er mwyn iddynt ddatblygu a ffynnu. Yr ydym fel Cyngor yn uchelgeisiol ar eu rhan ac yn awyddus i ddathlu a rhannu eu llwyddiannau.

Mae hyn yn golygu fel Cyngor :-

- *Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fwynhau’r un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawliau, dim ots pwy ydyw.*

- *Byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond yn ôl eu profiad o fod mewn gofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i beidio â gorfod dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn.*
- *Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau'n rhan annatod o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i gael ei glywed a'i gymryd o ddifrif.*
- *Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn deall eu profiadau, eu hanghenion a/neu'n gallu cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant.*
- *Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyrraedd ei botensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i fod y gorau y gall fod a'r hawl i ymlacio a chwarae.*
- *Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, a bod eraill yn malio amdano ac yn ei garu. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel a chael ei warchod rhag niwed ac oherwydd y dylid sicrhau trwy wirio'n rheolaidd bod pob plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu yn iawn.*
- *Byddwn yn darparu cymorth i gael mynediad at y gofal iechyd a'r cyngor cywir sydd ei angen i gefnogi'r iechyd corfforol, iechyd meddwl a'r llesiant cyffredinol gorau i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd a'r gefnogaeth orau bosibl.*
- *Byddwn yn chwilio am leoedd sefydlog i fyw sy'n addas i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i amddiffyniad arbennig os nad yw'n byw gyda'i deulu. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i unrhyw drefniant mabwysiadu gael ei oruchwylio gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau ei fod yn helpu'r person ifanc i dyfu a datblygu, ei fod yn gyfreithlon a'i fod yn blaenoriaethu buddiannau gorau plant.*
- *Byddwn yn darparu cyfleoedd a chymorth dysgu a datblygu i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal, a byddwn yn ei helpu i fod yr hyn mae am fod. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i addysg.*
- *Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael ei baratoi ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol a bod yn oedolyn. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i gyrraedd ei botensial.*
- *Byddwn yn gweithio i ddarparu mynediad at y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar ôl gadael gofal, a chodi ymwybyddiaeth o'r rhain*.

Ac yn fwyaf pwysig.......

fel Rhieni Corfforaethol byddwn yn sicrhau ein bod yn meddwl, cynllunio, gweithredu a gwneud penderfyniadau gyda'r rhagdybiaeth isod:

## ***"Pe bai'n blentyn i mi......."***

Rydym yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd gyda pob aelod etholedig, pob adran o fewn y Cyngor, ynghyd â'n partneriaid, yn ein hymdrech i barhau i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd y Panel Rhiant Corfforaethol yn gweithio i sicrhau bod yr uchod yn cael ei ddiwallu. Yn unol â siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru byddwn yn cyflawni'r addewidion canlynol wrth weithio gyda phlant a pobl ifanc sydd a phrofiad o ofal:

- *Byddwn yn ymroi i wrando ar yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed a'u hystyried yn llawn wrth i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gael eu gwneud.*
- *Byddwn yn trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda pharch.*
- *Byddwn yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt. Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am yr hyn sy'n digwydd a pham.*
- *Byddwn yn defnyddio iaith syml wrth gyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.*
- *Byddwn yn dangos cydymdeimlad wrth ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.*
- *Byddwn yn gweithio gyda phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w helpu i gyflawni ei nodau.*
- *Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am y broses o gyflwyno cwyn os ydynt yn teimlo nad ydym yn cadw at y siarter hon.*
- *Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am yr hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod eu barn, eiu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud neu pan mae'r unigolyn yn anhapus ac eisiau i rywbeth stopio, ddechrau neu newid*

**5. Cyfrifoldebau Allweddol**

Mae'r cyfrifoldeb rhiantu corfforaethol wedi ei osod ar awdurdodau lleol yn Neddf Plant 1989 a 2005. Yn ychwanegol, mae Adran 27 o Ddeddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod iechyd yn ogystal ag adrannau tai ac addysg o fewn awdurdodau lleol i gynorthwyo adrannau gwasanaethau cymdeithasol i weithredu eu dyletswyddau o dan y Ddeddf yng nghyd destun darparu cymorth, cefnogaeth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal. Mae gan yr adrannau sydd yn cynnwys gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd a gwasanaethau ieuenctid rôl i'w chwarae i gefnogi plant mewn gofal a'r rhai sydd wedi gadael gofal drwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu, i gymryd rhan ac i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles.

Mae gan Gyngor Gwynedd drwy'r Aelod Cabinet Arweiniol, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd rôl allweddol i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu ei gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol yn llawn mewn ffordd sydd yn adeiladu ymddiriedaeth a hyder y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.

Mae'r ddogfen 'Pe bai'n blentyn i mi...' yn datgan yn glir mai'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yw'r 'rhiant corfforaethol' ac yn nodi fod cyfrifoldeb sylfaenol ar bob cynghorydd am y plant sydd yn eu gofal. Er mwyn gweithredu'r cyfrifoldeb, mae angen gweithdrefnau clir yn eu lle er

mwyn rhoi gwybodaeth gywir iddynt er mwyn eu galluogi i gael gwybod am y materion sylfaenol sydd yn wynebu plant a phobl ifanc mewn gofal yn eu hardaloedd. Nid yw yn briodol i roi gwybodaeth bersonol am achosion unigol, ond dylid darparu gwybodaeth gyffredinol am feysydd penodol a thueddiadau lleol sydd yn effeithio ar blant mewn gofal, yn ogystal â gwybodaeth am ansawdd ac amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer.

Yng Nghyngor Gwynedd bydd y Panel Rhiant Corfforaethol, ar ran y Cyngor yn ei gyfanrwydd, yn gweithredu'r cyfrifoldeb uniongyrchol i sicrhau fod gwasanaethau priodol ac addas ar gael ar gyfer plant mewn gofal. Bydd y Panel Rhiant Corfforaethol yn derbyn cyfrifoldeb i gynnal gweithgaredd drwy sefydlu grwpiau tasg a gorffen fydd yn canolbwyntio ar feysydd penodol er mwyn edrych yn fanwl ar ansawdd gwasanaethau, llwyddiannau a rhwystrau yn ogystal â chanfod profiadau uniongyrchol plant, pobl ifanc a gofalwyr er mwyn gwella profiadau plant mewn gofal yng Ngwynedd.

Bydd pob cynghorydd yn derbyn hyfforddiant blynyddol i godi ymwybyddiaeth am eu cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol, a bydd adroddiad yn adrodd ar weithgaredd y Panel Rhiant Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn yn flynyddol.

Bydd y Panel yn cyfarfod yn chwarterol, ac yn trefnu'r cyfarfodydd i ganolbwyntio ar un maes blaenoriaeth penodol er mwyn sicrhau fod sylw dyledus yn cael ei roi i agweddau o wasanaeth gan ddisgwyl fod aelodau o'r panel yn derbyn cyfrifoldeb i arwain ar y gwaith gyda swyddogion a phartneriaid allweddol. Disgwylir fod ymchwil ymarferol yn cael ei gwblhau rhwng cyfarfodydd gyda disgwyliad fod yr aelod panel yn derbyn cyfrifoldeb i adrodd yn ôl ar unrhyw ganfyddiad ar gyfer trafodaeth bellach yn y panel.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymfalchïo yn eu gallu i gynnig gofal maeth o'r safon uchaf ac yn buddsoddi yn helaeth i recriwtio, asesu a chofrestru gofalwyr maeth lleol ar gyfer plant Gwynedd. Mae gofal maeth o'r ansawdd gorau yn adnodd annatod ar gyfer ei gallu i sicrhau fod ein hymrwymiadau i blant mewn gofal yn cael eu diwallu.

Mae cyfrifoldeb ar ofalwyr maeth i ofalu am y plant sydd yn eu gofal fel pe baent yn blant iddynt hwy gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau, yn eiriol ar eu rhan ac yn cydweithio yn dda gyda rhieni, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid. Mae canran uchel o blant sydd yng ngofal y Cyngor yn cael eu lleoli gyda aelodau o'u teuluoedd eu hunain sydd yn cael eu cofrestru fel gofalwyr maeth oherwydd statws cyfreithiol y plant. Yr ydym yn ymrwymo yn llawn i gymryd cyfrifoldeb i ddarparu'r un gefnogaeth ymarferol a phroffesiynol i'r teuluoedd yma ag i unrhyw leoliad maeth arall, gan fod yr her o ofalu am blentyn o'u teulu eu hunain yn un sydd yn cael ei gydnabod yn llawn.

Yr ydym wedi sicrhau fod barn a llais rhieni maeth yn cael ei gynnwys yng ngweithgaredd y Panel Rhiant Corfforaethol drwy aelodaeth rhiant maeth profiadol ar y panel.

Strwythurau Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Aelodaeth y Panel Rhiant Corfforaethol:-

Swyddogion y Cyngor
Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd
Pennaeth Addysg
Pennaeth Economi a Chymuned
Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant
Uwch Reolwr Plant
Uwch Reolwr Addysg
Uwch Reolwr Tai a Llesiant
Swyddog Adolygu Annibynnol

Aelodau y Cyngor
Aelod Cabinet – Plant a Chefnogi Teuluoedd
Aelod Cabinet – Oedolion, Iechyd a llesiant
Aelod Cabinet – Tai
Aelod Cabinet – Addysg
Aelod Cabinet – Economi a Chymuned

Partneriaid
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  Plant Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Plant Mewn Gofal
Pencampwr ar gyfer Plant Mewn Gofal
Cynrychiolydd Plant Mewn Gofal
Cynrychiolydd Rhieni Maeth

Bydd y Panel yn gwahodd swyddogion priodol o wahanol asiantaethau ac yn fewnol o'r Cyngor yn ddibynnol ar y maes ffocws ar gyfer trafodaethau penodol.

**Ein gweledigaeth**

Mae gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer plant mewn gofal yn rhoi cyfrifoldebau penodol ar pob aelod o'r Panel Rhiant Corfforaethol sef :

- Rhoi'r plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i bopeth y byddwn yn ei wneud.
- Gwrando ar blant a phobl ifanc mewn gofal
- Ail sefydlu a chynnal grŵp cyfranogi i wrando a chydweithio gyda plant mewn gofal er mwyn gwella gwasanaethau a chefnogaeth
- Sicrhau bod yr addewidion i blant a phobl ifanc mewn gofal yn cael eu diwallu
- Gweithredu i symud unrhyw rwystrau i ddarpariaeth gwasanaeth neu i gyfleoedd unigol.
- Deall yr ardrawiad ar blant a phobl ifanc mewn gofal o holl benderfyniadau'r Cyngor
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn eu lle ar gyfer gweithredu penderfyniadau am blant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod ac asiantaethau eraill
- Cael mynediad at wybodaeth meintiol ac ansoddol am y gwasanaethau, a sicrhau digon o ddeallusrwydd unigol i werthuso'r wybodaeth a'i ystyr ar gyfer plant mewn gofal

- Cynnal dadansoddiad manwl o anghenion y boblogaeth sydd mewn gofal a'r holl agweddau o'r gwasanaethau sydd eu hangen i ymateb i'r angen fel bod tystiolaeth glir ar gael i fwydo i benderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

## 6. Plant Mewn Gofal yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gefnogi'r mwyafrif o blant a phobl ifanc y sir drwy eu cynnal a'u cefnogi i fyw gyda'u teuluoedd yn eu cymunedau heb ymyrraeth statudol a heb eu derbyn i ofal. Er hyn, i nifer fechan, nid yw hyn yn bosib ac maent angen gofal tymor byr neu dymor hir o dan drefniadau statudol gofal.

Mae profiadau o fod mewn gofal yn amrywio i bob plentyn yn ôl yr hyn a brofwyd gan ofal gan eu teulu. Mae'r teimlad o golled yn un cyffredin sydd angen ei gydnabod – colled yn y berthynas gyda'u teulu er y profiadau gwael a gawsant yng ngofal eu rhieni, ac yn arbennig y golled os oes rhaid symud o'u cynefin a cholli ffrindiau ysgol. Daw plant a phobl ifanc i ofal unai drwy Orchymyn Llys neu drwy gytundeb rhiant. Mae nifer o resymau yn arwain i blant ddod i ofal y Cyngor, unai o ganlyniad i broblemau dros dro sydd yn wynebu eu rhieni, neu o ganlyniad i faterion mwy parhaol sydd yn golygu nad yw'n ddiogel i ddychwelyd rhai plant adref.

Mae'r plant a'r bobl ifanc sydd yn ein gofal yn dod o bob math o gefndir bywyd a gyda gwahanol ddyheadau, bwriadau a chefndiroedd diwylliannol.

Defnyddir y term "rhiant corfforaethol" i ddisgrifio'r cyfrifoldeb ar y cyd sydd gan y Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sydd yn gadael gofal.

Yr ydym yn ymwybodol fod risg uwch i blant mewn gofal gael eu hynysu yn gymdeithasol o'u gymharu â'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal, oherwydd eu profiadau cyn dod i ofal ac oherwydd eu bod mewn gofal. Mae'n hanfodol felly bod y Cyngor, fel Rhiant Corfforaethol, yn sicrhau bod y profiad o fod mewn gofal yn un cadarnhaol a chefnogol sydd yn uchafu eu potensial ac yn sicrhau eu bod yn rhan llawn o'u cymuned.

Pan nad oes modd lleoli plant mewn gofal maeth oherwydd anghenion cymhleth, yr ydym yn ymrwymo i ganfod lleoliadau amgen sydd yn ymatebol i anghenion yr unigolyn ac yn gweithio yn ddiflino i sicrhau nad oes oedi yn digwydd yn y cynllunio gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc penodol.

Yr ydym wedi sicrhau fod barn a llais person ifanc sydd wedi bod mewn gofal yng Ngwynedd yn cael ei gynnwys yng ngweithgaredd y Panel Rhiant Corfforaethol drwy aelodaeth person ifanc ar y panel.
Mae cynnydd yn y niferoedd o blant sydd yn cael eu lleoli adref gyda'u rhieni o dan Orchmynion Gofal. Cydnabyddir fod y lleoliadau yma o'u hanfod yn rhai o risg uchel mewn rhai amgylchiadau. Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i sicrhau fod diogelu'r plant a'r bobl ifanc yma yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i hyrwyddo a sicrhau llwyddiant y lleoliadau yma gan eu bod yn golygu fod plant a phobl ifanc yn cael eu magu gan eu rhieni eu hunain, o fewn eu teuluoedd eu hunain, ac yn eu cymunedau eu hunain, ac ar yr

un pryd yn cydnabod fod angen cefnogaeth ddwys i'r garfan yma o blant mewn gofal drwy ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol i oedolion ac i blant a phobl ifanc.

## 7. Cynnwys plant a phobl ifanc mewn gofal

Agwedd hanfodol o'r weledigaeth sydd gennym fel Rhieni Corfforaethol yw ein hymroddiad i wrando ar blant a phobl ifanc sydd yn ein gofal. Yn hanesyddol, rydym wedi bod yn cynnal sesiynau 'Dweud eich dweud' gyda cynrychiolaeth o blant a phobl ifanc mewn gofal er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfarfod a thrafod materion penodol sydd o bwys iddynt hwy gyda swyddogion a chynrychiolwyr o aelodau etholedig sydd yn aelodau o'r Panel Rhiant Corfforaethol.

Mae yn flaenoriaeth gennym i ail sefydlu trefniant tebyg yn y dyfodol agos ac ar hyn o bryd yn rhoi cynlluniau mewn lle i weithredu hyn.

Yr ydym yn sicrhau ein bod yn cael barn plant a phobl ifanc mewn gofal ymhob adolygiad o gofrestriad rhieni maeth drwy ofyn eu barn am eu lleoliadau ac am unrhyw fater penodol a fyddai yn gwella eu profiadau.

Yr ydym yn sicrhau fod pobl ifanc hŷn sydd yn parhau i fod yn ein gofal neu wedi gadael ein gofal yn cael mynediad i grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol sydd yn cael eu cynnal gan 'Voices from Care', a thrwy hynny fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar gynllunio gwasanaethau a pholisïau i'r dyfodol.

Yr ydym yn gweithredu o fewn y Fframwaith Eiriolaeth Cenedlaethol i sicrhau mynediad i blant a phobl ifanc mewn gofal i wasanaethau eiriolaeth annibynnol pan fo unrhyw fater ynglŷn â'u gofal yn eu pryderu i'r graddau ble maent yn teimlo eu bod angen cymorth annibynnol drwy eiriolwr i'w datrys.

Yr ydym yn sicrhau fod barn plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn llawn yn eu hadolygiadau statudol drwy gydol eu cyfnod mewn gofal.

Mae gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth yn hanfodol bwysig i sicrhau fod llais plant a phobl ifanc yn cael gwrandawiad, eu bod yn cael cyfle i leisio eu dymuniadau a'u dyheadau a'u barn ynglŷn â'r gofal y maent yn ei dderbyn.

## 8. Rhiant Corfforaethol yng Ngwynedd

Mae gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal wedi ei selio ar farn plant a phobl ifanc Gwynedd.

- Iechyd a Lles
- Mwynhau a Chyflawni (Addysg)
- Bod yn ddiogel
- Gwneud cyfraniad cadarnhaol
- Lles economaidd a troi yn oedolyn


Rhan bwysig sydd gan y Cyngor fel rhiant corfforaethol effeithiol yw sicrhau ein bod yn datblygu teimlad o fod o fod yn ofalus am y plant a'r bobl ifanc hyn ac yn dymuno'r gorau mewn bywyd iddynt ac nid dim ond yn sicrhau eu bod yn derbyn gofal addas drwy wirio trefniadau gweithredol.

Er yr holl sylw dros y blynyddoedd i'r maes, mae canlyniadau rhwng plant mewn gofal a phlant eraill wedi lledaenu fwy fyth. Mae'n fwriad gennym fel Cyngor i wella y cyfleoedd bywyd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal a lleihau'r bwlch presennol.

Mae gan rieni corfforaethol gyfrifoldeb i amddiffyn a hyrwyddo lles plant sydd yn eu gofal a'u paratoi at fywyd fel oedolyn drwy: -


- Wrando ar blant mewn gofal ac ymateb iddynt drwy fod yn glir ac onest
- Adnabod y cymhlethdod sydd yn dod o ofalu am blant mewn gofal, a sicrhau bod yr ymyraethau addas yn cael eu darganfod i gefnogi gofalwyr yn ogystal a phlant a phobl ifanc
- Creu yr amgylchiadau cywir fel gall anghenion plant unigol gael eu hadnabod, a bod gwasanaethau yn ymateb i'r anghenion hyn
- Cwestiynu, ac os oes angen, herio agweddau o wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau sydd yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal
- Sicrhau bod plant mewn gofal yn cael yr addysg addas ac yn cyflawni, o leiaf, yn unol a'u gallu.
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol sydd gan yr awdurdod a'r cynlluniau ar y cyd gyda phartneriaid allweddol eraill yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc mewn gofal
- Sicrhau bod gennym wybodaeth cyfredol ynglŷn a'r maes ac ymarfer gorau fel bod modd bwydo mewn i benderfyniadau i'r dyfodol.

**Iechyd a Lles**





Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio sicrhau eich bod fel plant a phobl ifanc mewn gofal yn meddu ar y cyfleoedd bywyd gorau phosib drwy fwynhau iechyd da.  Bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn datblygu trefniadau holistaidd i sicrhau eich bod  yn cael mynediad at wasanaethau a gofal iechyd corfforol ac emosiynol ac addysg iechyd, a hynny yn amserol ac mewn ffordd ymatebol.

**Addysg**





Mae addysg dda yn allweddol ar gyfer dyfodol disglair ac uchafu cyfleoedd.  Mae gennym gyfrifoldeb, fel rhieni corfforaethol, i sicrhau ein bod yn eich annog a'ch cefnogi i gyfarfod eich cyrhaeddiad addysgol uchaf bosib,  ac i'ch cefnogi  i wneud eich gorau.  Mae hyn yn hanfodol i'ch paratoi i fod yn llwyddiannus wrth geisio ymateb i sialensau bywyd fel oedolyn.

**Aros yn Ddiogel**





Bydd y Cyngor yn hyrwyddo ac yn diogelu eich lles drwy ddarparu gwasanaethau arbenigol sydd o ansawdd uchel fydd yn canolbwyntio ar eich anghenion unigol. Byddwn yn eich helpu i gadw mewn cysylltiad a'ch teulu a phobl eraill sydd yn bwysig i chi. Byddwn yn sicrhau fod gennych un gweithiwr cymdeithasol fydd yn creu perthynas hefo chi ac ar gael i chi pe bai gennych unrhyw broblem neu bryder. Rydym yn ymrwymo i ddarganfod cartref i chi sydd yn eich siwtio ac yn creu amgylchedd o'ch cwmpas lle mae eich anghenion chi yn cael blaenoriaeth.

**Gwneud Cyfraniad Gadarnhaol**




Mae'n cael ei adnabod bod barn pobl yn helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau sydd yn cwrdd a'u anghenion yn iawn. Byddwn yn eich annog i datblygu eich talentau a'ch diddordebau ac yn eich cefnogi i wneud y pethau yr ydych yn ei fwynhau. Ond, yn bwysicach na dim rydym yn rhoi addewid i chi y byddwn yn eich cynnwys yn y penderfyniadau sydd yn effeithio ar eich bywydau.

**Lles economaidd a throi yn oedolyn**




Mae'n sialens i ni fel rhieni corfforaethol i ddiwallu anghenion unigryw ac eang pob un ohonoch a sicrhau y byddwch yn barod am fod yn oedolion annibynnol Byddwn yn gweithio yn galed gyda chi i roi'r cymorth a'r gefnogaeth y byddwch ei angen i symud ymlaen o ofal i fywyd fel oedolyn gan sicrhau eich bod yn cael cyfleoedd ym myd addysg a chyflogaeth ac yn cael byw mewn cartref sefydlog yn annibynnol.

## 9. Diweddglo

Dylai plant a phobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ddisgwyl i dderbyn y math o gefnogaeth y byddai rhieni cyfrifol yn rhoi i'w plant, ac felly mae'n rhaid i'r Cyngor ynghyd â'i brif bartneriaid weithio gyda'i gilydd a pherchnogi eu cyfrifoldeb yn rhoi y gefnogaeth hyn. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn gweithio ar ran y Cyngor i ddiwallu hyn. Bydd y Panel yn cymryd trosolwg strategol a gweithredol i sicrhau bod cyfleoedd bywyd plant mewn gofal a phlant sydd yn gadael gofal yn cael eu huchafu er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial a mwy pwysig fyth yn datblygu i fod yn drigolion, oedolion a rhieni gweithgar a cynhwysol. Bydd y Panel yn ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd wedi gadael gofal, yn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau'r partneriaid priodol.